Cod ymddygiad gwirfoddolwyr

Fel gwirfoddolwr Girlguiding, mae gennych gyfrifoldeb i helpu merched a menywod ifanc gyrraedd eu potensial llawn drwy brofiadau geidio gwych - felly mae'n bwysig eich bod yn deall y cyfrifoldeb hwn yn glir.

Cymeradwywyd: 30 Awst 2019
Fersiwn: 2
Perchennog cynnwys: Ansawdd

Mae cod ymddygiad eich gwirfoddolwyr yn nodi'r hyn a ddisgwylir gennych bob amser.

Dyma ddisgwyliad Girlguiding o ran sut rydych chi'n gweithio gydag eraill yn Girlguiding, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff a merched, a'r cyhoedd, gan gynnwys rhieni a sefydliadau partner.

Drwy ei ddilyn byddwch yn gallu gwirio eich bod yn gwneud y peth iawn ac yn ymddwyn yn y ffordd iawn. Byddwch yn cael eich atgoffa o beth mae Girlguiding yn ei olygu, ein cenhadaeth, yr addewid a'n gwerthoedd, i fod yn ofalgar, yn heriol, yn rymusol, yn hwyl, yn gynhwysol ac yn ysbrydoledig.

Yn bwysicaf oll, byddwch yn siŵr eich bod yn helpu i gyflwyno ein rhaglen, sy'n gwneud geidio yn brofiad gwych. Mae pob gwirfoddolwr yn cyfrannu at gyflwyno rhaglen dda, p'un a ydych mewn rôl uned yn gweithio gydag aelodau ifanc neu'n cefnogi oedolion eraill wrth geidio.

Mae'r Cod hwn yn eich cefnogi drwy wneud eich cyfrifoldebau'n glir i chi. Cymerwch ef o ddifrif a dilynwch ef â balchder.

Eich cod ymddygiad gwirfoddoli gyda Girlguiding

Fel gwirfoddolwr gyda Girlguiding, mae'n rhaid i chi wastad:

- Bod yn fodel rôl da gydag ymddygiad ac agwedd sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a'r Addewid.

- Cydymffurfio â holl gyfreithiau a chanllawiau perthnasol y DU. Os yw eich uned wedi'i lleoli y tu allan i'r DU neu os ydych yn rhan o weithgaredd y tu allan i'r DU, rhaid i chi hefyd gadw at gyfraith y wlad honno.

- Sicrhau eich bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau Girlguiding a'u hail-ddarllen yn rheolaidd fel eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Os oes gennych fylchau yn eich dealltwriaeth, siaradwch â'ch comisiynydd neu gynghorydd lleol.

- Cyflwyno'r rhaglen Girlguiding i aelodau ifanc os ydych yn wirfoddolwr uned. Wrth wirfoddoli gydag oedolion tra'n geidio, cefnogwch nhw i fodloni gofynion rhaglen Girlguiding, i chwarae eich rhan wrth roi profiad Girlguiding gwych yn gyson.

- Bod yn gyfrifol ac yn atebol yn y ffordd rydych chi'n cyflawni eich rôl.

- Bod yn deg a thrin pawb gydag urddas a pharch yn unol â'n polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- Parchu preifatrwydd yn unol â'n polisïau a'n canllawiau.

- Cyfathrebu mewn ffordd agored a pharchus, boed yn bersonol, dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy gyfryngau digidol.

- Cydweithio gydag aelodau Girlguiding, eu rhieni neu ofalwyr a'r cyhoedd i hyrwyddo cenhadaeth a gwerthoedd Girlguiding.

Fel gwirfoddolwr Girlguiding, rhaid i chi beidio ag ymddwyn yn dwyllodrus nac yn anonest. Neu wneud unrhyw beth sy'n dwyn anfri, neu'n debygol o ddwyn anfri, ar Girlguiding neu gael effaith negyddol ar Girlguiding neu ei enw da.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n dilyn y cod?

Lle nad yw rhywun yn dilyn y cod, caiff ei alw'n doriad. Os bydd rhywun yn credu eich bod wedi gweithredu mewn ffordd sy'n torri'r cod hwn, mae ganddyn nhw hawl i roi gwybod i ni a byddwn yn ymchwilio'n ffurfiol.

Os byddwch yn torri'r cod efallai y bydd eich aelodaeth yn cael ei chyfyngu neu ei thynnu'n ôl, yn unol â'r polisi ar gyfer rheoli pryderon am wirfoddolwyr sy'n oedolion.